# Pecyn Gwybodaeth: Macmillan Q Lab

Sut allwn ni ail-ddychmygu gofal canser ar y cyd yn agosach at adref?





Hosted by

The NHS Alliance

In partnership

MACMILLAN CANCER SUPPORT

Macmillan Public

# Croeso

Mae Cymorth Canser Macmillan yn falch o fod yn partneru â chymuned Q, a gynhelir gan Gynghrair y GIG, i ddarparu Labordy arloesi. Mae Macmillan Q Lab yn dod â phobl o wasanaethau iechyd a gofal lleol a chymunedau ledled y DU ynghyd i lunio atebion i un cwestiwn mawr:
Sut allwn ni ail-ddychmygu gofal canser cyfannol ar y cyd yn agosach at adref?

Ymunwch â ni i lunio atebion a allai wneud gofal canser yn decach i bobl sy'n byw gyda chanser ledled y DU.

**Darllenwch ymlaen i gael rhagor o wybodaeth am y canlynol:**

- Y pwnc y byddwn yn ei archwilio
- Sut mae Macmillan Q Lab yn gweithio
- Manteision ac effaith ymuno â'r labordy arloesi
- Os yw Macmillan Q Lab yn addas i chi
- Y gwahanol ffyrdd y gallwch chi gymryd rhan yn y Lab
- Y broses ymgeisio a'r amserlen



Macmillan Public

# Ein cwestiwn: "Sut allwn ni ail-ddychmygu gofal canser cyfannol ar y cyd yn agosach at adref?"

Yn aml, mae modelau gofal canser cyfredol yn methu â diwallu anghenion pobl, ac mae rhai cymunedau'n cael eu heffeithio llawer mwy nag eraill. Drwy symud i gael ein harwain gan gymdogaethau, gallwn ddylunio cefnogaeth sy'n teimlo'n fwy cydgysylltiedig, cefnogol a haws i'w chael, yn agos at ble mae pobl yn byw.

I wneud hyn yn dda, mae angen i ni fuddsoddi mewn ffyrdd perthynol o weithio sy'n trin cymunedau fel partneriaid cyfartal sy'n cydnabod eu cryfderau, eu perthnasoedd a'u heriau.

Gyda chydnabyddiaeth gynyddol ac uchelgais polisi i symud gofal canser yn agosach at adref, mae iechyd dan arweiniad Cymdogaethau wedi dod i'r amlwg fel cyfle hollbwysig i ddarparu gofal mwy teg, personol a chydlynol.

Mae'n adlewyrchu dealltwriaeth na fydd canlyniadau a phrofiadau gwell yn cael eu cyflawni drwy wasanaethau ysbyty ac arbenigol yn unig ond drwy ddulliau trawsnewidiol sydd wedi'u gwreiddio mewn lle.

Mae'r rhaglen hon yn canolbwyntio ar fynd i'r afael ag anghydbwysedd pŵer, cryfhau ymddiriedaeth a deall beth sydd ei angen i ymgynnull ar draws gwahanol arbenigeddau a sectorau.

Drwy greu mannau lle mae profiad bywyd, profiad a ddysgwyd a phrofiad ymarferol yn cario pwysau cyfartal, bydd partneriaid yn cael eu galluogi i symud y tu hwnt i seilos sefydliadol a rhannu atebolrwydd i lunio canlyniadau canser a chyd-ddylunio atebion dan arweiniad lleol. Drwy ddulliau cydweithredol, gallwn droi’r syniad o ‘ofal yn nes at adref’ yn newid ymarferol go iawn i bobl sy’n byw gyda chanser.



Macmillan Public

# Pwy yw Q?

Dylai pawb gael mynediad at ofal iechyd o ansawdd uchel. Ar hyn o bryd, dydyn nhw ddim. Rydym yn gwybod bod miloedd o bobl yn gweithio'n galed i newid hyn. Ond heb gysylltiadau rhyngddynt, rydym yn colli syniadau ac egni sydd eu hangen i ddatrys yr heriau cymhleth sy'n ein hwynebu. Yng nghymuned Q, rydym yn dysgu, yn rhannu ac yn cydweithio i fynd i'r afael â heriau dybryd y system iechyd.

Un o'r rhaglenni a ariennir gennym yw Q Labs, cyflymydd arloesi a gwella. Drwy rannu mewnwelediad, sgiliau a syniadau yn eang, rydym yn creu'r diwylliant a'r amodau i ymdrechion gwella lwyddo.

Gyda'n gilydd, rydym yn gwneud cynnydd cyflymach i wella iechyd a gofal i bawb, bob dydd.

Ewch i’n gwefan: q.thenhsalliance.org
E-bostiwch ni: Q@thenhsalliance.org



Macmillan Public

# Pwy yw Macmillan?

Mae Cymorth Canser Macmillan wedi treulio mwy na 100 mlynedd yn helpu pobl sy'n byw gyda chanser. Gwyddom y gall canser amharu ar eich bywyd cyfan. A gall gael ei waethygu oherwydd pwy ydych chi a ble rydych chi'n byw.

Ond rydyn ni yma i newid hynny.

Mae nifer y bobl sy’n cael diagnosis o ganser yn cynyddu, ac mae angen y cymorth gorau ar bob un ohonynt i ddiwallu eu hanghenion unigryw.

Dyna pam y byddwn yn gwneud beth bynnag sydd ei angen i helpu pawb sy'n byw gyda chanser ledled y Deyrnas Unedig i gael y cymorth sydd ei angen arnynt ar hyn o bryd a thrawsnewid gofal canser i bawb a fydd yn cael diagnosis yn y dyfodol.

Ewch i dudalen Macmillan Q Lab: Macmillan Q Lab | Cymorth Canser Macmillan
E-bostiwch ni: qlabmacmillan@macmillan.org.uk





Macmillan Public

# Beth yw Q Lab?

Mae Q Labs yn cefnogi pobl sy'n gweithio ar draws iechyd a gofal i arbrofi a datblygu atebion llwyddiannus i broblemau cymhleth. Rydym yn rhoi'r sgiliau, y gefnogaeth a'r cyllid i chi, i roi eich syniadau ar waith.

**Cam 1 Darganfod a Chreu Syniadau (9 mis)**

- Mae'r rhaglen yn cefnogi timau i archwilio'r broblem, dylunio syniadau a phrofi prototeipiau cynnar, gyda £75,000 i'ch cefnogi chi.
- Mae gweithdai yn eich tywys trwy bob cam o'r broses ddylunio, ochr yn ochr â dysgu a hyfforddiant gan gymheiriaid wedi'i hwyluso.
- Rydym yn dod â phobl unigol i mewn i gefnogi timau mewn gweithdai, rhoi arbenigedd a bod yn 'gyfeillion beirniadol' i adeiladu prosiectau timau.

**Cam 2 Gweithredu (12 mis)**

- Yna gwahoddir timau sy'n profi prototeipiau'n llwyddiannus i wneud cais am gyllid pellach o £200,000 i weithredu atebion mewn lleoliadau bywyd go iawn.

| | | |
|---|---|---|
| Gall **syniad** ymwneud â phrosesau neu offer, ar gyfer cleifion neu staff. | Mae **prototeip** wedi'i gynllunio i brofi hyfywedd yr ymyrraeth | **Prawf ymarferol**: adborth ar y cysyniad |



Macmillan Public

# Beth mae'r Lab yn eiolygu?

| | **Adeiladu timau**<br>**Rhagfyr 2026** | **Ymchwilio a darganfod**<br>**Ion – Mawrth 27** | **Diffinio a mireinio**<br>**Ebrill – Mai 27** | **Datblygu a phrofi**<br>**Mehefin – Awst 27** | **Distyllu a rhannu**<br>**Medi 27** | **Gweithredu**<br>**Tach 2027 - Hyd 2028** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Disgrifiad o'r cyfnod** | Ymgorffori timau a datblygu perthnasoedd â'i gilydd a thimau Q Lab. | Datblygu dealltwriaeth o'r broblem. | Dadansoddi a gwneud synnwyr o ganfyddiadau ymchwil. | Cynhyrchu syniadau ar gyfer newid a chreu cynlluniau i brofi syniadau yn ymarferol. | Datblygu cynlluniau i'w gweithredu. | Gwahoddir timau sy'n cyrraedd y cyfnod prawf-o-gysyniad i wneud cais am gyllid grant i gefnogi profion am 12 mis pellach. |
| **Beth fyddwn yn ei gyflawni** | • Nodi sut y byddwn yn gweithio gyda'n gilydd. | • Ymchwilio i'r pwnc i ddwysau dealltwriaeth.<br>• Rhannu dysgu. | • Nodi cyfleoedd ar gyfer newid.<br>• Blaenoriaethu meysydd ffocws. | • Datblygu cynlluniau profi ar gyfer prototeipiau. | • Cynnal profion yn y cyfnod cynnar.<br>• Cyfathrebu a rhannu gwersi. | |
| **Dyddiadau allweddol** | **Sesiwn groeso**<br>8 Rhag 2026<br>Ar-lein | **Gweithdy 1**<br>27 Ion 2027<br>Yn bersonol | **Gweithdy 2**<br>6 Ebrill 2027<br>Ar-lein | **Gweithdy 3**<br>16 Mehefin 2027<br>Yn bersonol | **Gweithdy 4**<br>14 Medi 2027<br>Ar-lein | |



Macmillan Public

# Pa fath o effaith all y Lab ei chael?

**Dywedodd cyfranogwyr blaenorol:**

**Lle i arbrofi**

"Roedd y diffyg cystadleuaeth a'r teimlad hwnnw o gydweithio yn wir yn chwa o awyr iach... roedd y teimlad hwnnw o bawb gyda'i gilydd yn tynnu pawb ymlaen"

**Manteision ar gyfer datrys problemau sefydliad cyfan**

"O safbwynt sefydliadol, rwy'n credu ei fod wedi bod yn eithaf trawsnewidiol... o ran ein dull o weithio gyda phrosiectau yn y dyfodol, yr ymgysylltiad a wnaethom â chyfranogwyr, y dylanwad a gafodd ar ddarnau eraill o waith a arweiniwyd gennym a chynnwys iechyd meddwl yn y prosiectau hynny."

**Persbectifau amrywiol**

"Roeddwn i wir yn croesawu barn a phrofiad eraill sy'n ceisio datrys her neu broblem debyg."

**Mwy o hyder a sgiliau**

"Mae gweithio gyda Q Lab wedi meithrin yr hyder a'r sgiliau a'r wybodaeth a'r holl bethau hynny i allu cynyddu cyflymder newid mewn gwirionedd."

**Astudiaeth achos labordy 2025**
**Llwybrau gofal wroleg, System Gofal Integredig Birmingham**

- Deallodd cyfranogwyr y labordy achosion sylfaenol oedi
- Model gofal newydd wedi'i dreialu: ymgynghorwyr mewn gofal sylfaenol gyda mynediad at gofnodion llawn y meddyg teulu
- Dros 60% o gleifion yn cael eu rheoli heb atgyfeirio
- Roedd 96% o gleifion yn fodlon ar y gwasanaeth newydd
- Diddordeb mewn comisiynu lleol a chenedlaethol

Darllenwch yr astudiaeth achos lawn ar wefan gymunedol Q.



Macmillan Public

# Cymryd rhan yn Macmillan Q Lab

Y profiad, y manteision a'r broses ymgeisio ar gyfer ein labordy arloesi.




Macmillan Public

# A yw’r Lab yn addas i mi?

**Nid yw ymuno â Lab yn gofyn am gael arbenigedd penodol: mae'n ymwneud â meddylfryd a ffocws.**

P'un a ydych chi'n ymuno fel rhan o dîm neu fel unigolyn, rydym yn chwilio am bobl a sefydliadau sydd

- Wedi'u hysgogi'n fawr gan bwnc gofal canser dan arweiniad cymdogaeth, neu elfen o ddod â gofal canser yn agosach at adref.
- Yn chwilfrydig, yn agored i ffyrdd newydd o feddwl, ac yn barod i herio'r status quo.
- Ag awydd ac egni i weithio ar y cyd.
- Yn credu y bydd meddwl ar y cyd ar draws systemau, rhanbarthau a thimau o gymorth i'ch gwaith.
- Timau a all ymrwymo i weithio ar y pwnc hwn o Ragfyr 2026 - Medi 2027.

**Ar gyfer timau:**

- Rydych chi eisiau datblygu a phrofi syniadau ymarferol a allai wella gofal canser.
- Rydych chi'n gwybod y bydd cyllid ymlaen llaw yn cefnogi eich cyfranogiad yn y Labordy, a'r gallu i'ch sefydliad weithredu syniadau newydd.



Macmillan Public

# Sut allwch chi gymryd rhan

## Fel tîm

- Rydym yn chwilio am 4-6 tîm i gymryd rhan, o bob cwr o'r Deyrnas Unedig.
- Mae timau yn cynnwys pobl o wahanol sefydliadau yn gweithio gyda'i gilydd.
- Rhaid iddyn nhw gynnwys:
  O leiaf un sefydliad cymunedol
  O leiaf un sefydliad sector cyhoeddus
- Gall timau gynnwys mwy na dau sefydliad, a chydweithrediadau sy'n cynnwys sefydliadau y tu allan i'r sector cyhoeddus a'r trydydd sector.
- Byddwch hefyd yn gweithio'n ystyrlon ochr yn ochr â phobl sydd â phrofiad bywyd.

## Fel unigolyn

- Rydym yn chwilio am 15-18 o bobl i gymryd rhan.
- Mae cyfranwyr unigol yn ymuno â'r gweithdai i gynnig arbenigedd a gweithredu fel ffrindiau beirniadol i'r timau system.
- Gall arbenigedd fod yn brofiad bywyd, rhywun sydd wedi cael ei effeithio gan ganser, naill ai'n uniongyrchol, neu rydych chi'n gofalu am aelod o'r teulu neu ffrind.
- Efallai fod gennych arbenigedd o weithio mewn sefydliad llawr gwlad, neu mewn ymchwil gyfranogol, ymgysylltu cymunedol, data a mewnwelediad, gwerthuso a/neu bolisi.
- Rydych chi'n angerddol am y pwnc, eisiau dysgu sgiliau arloesi a chydweithio newydd, ac yn barod ac yn gallu helpu timau.

Mae'r ddwy rôl yr un mor werthfawr ac yn creu amrywiaeth o bobl ac ystod o brofiadau sydd wedi ymrwymo i fynd i'r afael â'r her



Macmillan Public

# Disgwyliadau a manteision

### Fel tîm

- Ymrwymo 3-5 diwrnod y mis (yn dibynnu ar y rôl unigol).
- Derbyn hyfforddiant pwrpasol gan dîm Q Lab i'w cefnogi i roi cynnig ar offer a dulliau newydd yn ymarferol.
- Ennill sgiliau newydd a hyder wrth gymhwyso technegau arloesi cymdeithasol.
- Datblygu a phrofi atebion go iawn i symud gofal yn agosach at adref.
- Sicrhau gwybodaeth mwy treiddiol am y broblem ar y lefel leol a chysylltu hyn â'r cyd-destun cenedlaethol.
- Lle a chefnogaeth ymroddedig i arbrofi a datblygu syniadau i wella gofal canser.

### Fel unigolyn

- Yn ddelfrydol, gallu cymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n gysylltiedig â'r Labordy tuag un diwrnod y mis.
- Defnyddio eich profiad personol er budd eraill.
- Byddwch yn ennill sgiliau newydd a hyder wrth ddefnyddio offer a dulliau.
- Mynd â dysgu yn ôl i'ch sefydliadau neu'ch cymuned eich hun.
- Rhannu arbenigedd i gefnogi symud gofal canser yn agosach at adref.
- Cysylltiadau â rhwydweithiau ehangach Q, Cynghrair y GIG a Macmillan.



Macmillan Public

# Cyllid ar gyfer cyfranogi

## Fel tîm

- Bydd timau'n derbyn £75,000 ar gyfer y cyfnod darganfod a llunio syniadau cychwynnol o 9 mis.
- Mae'r sefydliad cynnal yn dosbarthu arian i sefydliadau partner, yn ad-dalu pobl sydd â phrofiad bywyd a sefydliadau llawr gwlad.

## Fel unigolyn

- Bydd pob cyfrannwr unigol yn derbyn costau treuliau rhesymol, gan gynnwys gwestyau a theithio i weithdai wyneb yn wyneb.
- Bydd pobl sydd â phrofiad bywyd, gofalwyr, a lleisiau cleifion yn cael eu talu am eu hamser. Byddant yn derbyn £1000, wedi'i rannu'n ddau daliad. Am unrhyw weithdai diwrnod llawn (naill ai ar-lein neu yn bersonol) a fynychir byddant hefyd yn derbyn £185. Bydd pob taliad yn cael ei dderbyn fel cardiau rhodd.
- Ni fydd gweithwyr proffesiynol sy'n ymgysylltu fel cyfranwyr yn cael eu talu. Byddant yn derbyn ardystiad DPP.



Macmillan Public

# Ymuno â'r Labordy

## Fel tîm

Rydym yn argymell bod pob tîm yn cynnwys y rolau canlynol, gyda’r phosibiliad o gyfuno rhai:

- Nawdd gan uwch arweinydd a all helpu cyflwyno’r achos dros y gwaith hwn, ac sydd â’r safle a’r rhwydwaith i ddylanwadu ar y system.
- Rheolwr prosiect neu arweinydd tîm a all adeiladu tîm, arwain y gwaith a chydlynu cyfranogiad.
- Arweinydd strategol a all ddarparu cyfeiriad, gwneud cysylltiadau, ystyried cynaliadwyedd, a sut i ledaenu'r syniadau a ddatblygwyd.
- Cymorth cyfathrebu i rannu dysgu o fewn eich sefydliad, Macmillan, cymuned Q a rhwydweithiau ehangach.

Mae timau'n cynnwys sefydliadau cymunedol a sefydliadau'r sector cyhoeddus sy'n gweithio gyda'i gilydd i ddod â gofal canser yn agosach at adref.

Bydd timau'n gweithio gyda phobl sydd â phrofiad bywyd o ganser neu'r rhai sy'n gofalu am bobl sydd â chanser fel rhan o weithgareddau'r Lab.

- Er nad yw'n hanfodol, mae'n ddymunol cael pobl sydd â phrofiad bywyd o ganser, neu ofalwyr anwyliaid sydd â chanser, i fod yn rhan o'ch tîm.
- Rydym yn annog yn arbennig gyfranogiad pobl o gymunedau ethnig amrywiol, pobl anabl, pobl LHDTC+, a'r rhai sy'n byw gyda chyflyrau hirdymor eraill.



Macmillan Public

# Gwneud cais i Macmillan Q Lab



# Sut y byddwn yn asesu ceisiadau tîm

**Mae cais ysgrifenedig lle gofynnir i chi gynnwys:**

- Gwybodaeth am ba sefydliadau sy'n gwneud cais gyda chi. Mae angen tîm a enwir arnoch a fydd yn cymryd rhan o Ragfyr 2026 i Fedi 2027.
- Sefydliad cynnal a all gydlynu'r arian â sefydliadau ac unigolion eraill sy'n gysylltiedig.
- Pa rolau sydd gennych chi yn eich tîm.
- Eich gwaith presennol sy'n ymwneud ag iechyd cymdogaeth a gofal canser.
- Sut y bydd gan eich tîm y gallu i weithredu newid o fewn y system.

**Beth sydd angen i'ch tîm ei arddangos:**

- Parodrwydd i gydweithio ar draws sefydliadau a sectorau; parodrwydd i gwestiynu a gweithio drwy ddynameg pŵer a gweithio fel partneriaid cyfartal.
- Ymrwymiad i weithio gyda chymunedau sy'n profi'r canlyniadau, y profiadau a'r mynediad gwaethaf ynghylch canser, a sut y byddwch yn eu cynnwys yn y gwaith hwn.
- Mae sgiliau fel data a mewnwelediad, a phrofiad o ddulliau cyfranogol yn ddymunol.
- Cyfrifoldeb gweithredol i greu newid yn effeithiol.

**Os byddwch ar y rhestr fer:** Byddwch yn cael gwahoddiad i sgwrs anffurfiol am eich cais. Bydd angen i chi hefyd ddarparu deunyddiau ariannol a diwydrwydd dyladwy pellach.



Macmillan Public

# Sut y byddwn yn asesu eich mynegiant o ddiddordeb unigol

Gofynnir i unigolion gwblhau mynegiant ysgrifenedig o ddiddordeb lle gofynnir i chi gynnwys:

- Eich diddordeb yn y pwnc, profiad perthnasol, a'r hyn y gallech ei gyfrannu at y rhaglen.
- Bydd angen i chi hefyd gwblhau asesiad monitro EDI i sicrhau ein bod yn recriwtio mewn ffordd amrywiol.

Sut y byddwn yn dewis cyfranwyr unigol:

- Ar gyfer arbenigwyr yn ôl profiad bywyd, rydym yn recriwtio i sicrhau bod ystod amrywiol o brofiadau yn cael eu cynrychioli ar y rhaglen.
- Ar gyfer arbenigwyr yn ôl proffesiwn, rydym yn recriwtio yn seiliedig ar fylchau sgiliau o fewn timau.





Macmillan Public

# Amserlen ymgeisio a  chynefino

**Ceisiadau'n agor**

Gwnewch gais i fod yn gyfrannwr tîm system neu unigol drwy ein ffurflenni ar-lein.

Timau:
27 Gorffennaf

Unigolion:
8 Medi

**Galwad am wybodaeth**

Ymunwch i ofyn unrhyw gwestiynau am y Lab.

Pawb: <u>5 Awst 12-1pm</u>

**Ceisiadau'n cau**

Cwblhewch eich ffurflen gais neu fynegiant o ddiddordeb;

Timau: 14 Medi,11.45pm

Unigolion:
7 Hyd, 11.45pm

**Penderfyniadau ar geisiadau**

Cewch wybod canlyniadau eich cais, gan gynnwys adborth.

Timau:
Erbyn 30 Hydref

Unigolion:
Erbyn 9 Tachwedd

**Galwad croeso**

Sesiwn gychwynnol a phecynnau croeso wedi'u danfon.

Pawb: 8 Rhagfyr



Macmillan Public

# Cwestiynau Cyffredin

**Sut ydw i'n cael rhagor o wybodaeth?**

Os oes angen i chi gysylltu â ni neu os oes gennych unrhyw gwestiynau am y Lab, cysylltwch â ni yn qlabmacmillan@macmillan.org.uk

Neu edrychwch ar ein gwefan QLab Macmillan a fydd yn rhoi'r ddolen i'r ffurflen gais a rhagor o wybodaeth i chi. https://www.macmillan.org.uk/about-us/what-we-do/macmillan-funding-grants/q-lab

Byddwn yn cynnal gweminar i chi gwrdd â'r tîm a gofyn unrhyw gwestiynau am y broses a'r ceisiadau ar 5 Awst 12-1pm. Y ddolen fydd y dudalen we uchod.

**Pa fathau o sefydliadau cymunedol ydyn ni'n chwilio amdanynt?**

Gallwch wneud cais os ydych chi'n sefydliad gwirfoddol, cymunedol, ffydd neu fenter gymdeithasol (VCFSE) sydd wedi'i leoli yn y Deyrnas Unedig, gan gynnwys:

- Elusen gofrestredig
- Sefydliad Corfforedig Elusennol (CIO)
- Cwmni Buddiannau Cymunedol (CIC)
- Cwmni wedi ei Gyfyngu trwy Warant
- Sefydliad Seiliedig ar Ffydd
- Cymdeithas preswylwyr/tenantiaid a grwpiau cymunedol

**Rwyf am gymryd rhan, ond dydw i ddim yn gwybod beth yw meddwl dylunio, meddwl systemau a dulliau arloesi cymdeithasol**

Byddwn yn cyflwyno'r holl ddulliau rydym yn eu defnyddio ar y rhaglen, fel y gallwch chi gymryd rhan heb unrhyw wybodaeth flaenorol amdanyn nhw.

# Diolch



Macmillan Public

# Diolch

Mae Q yn cael ei gynnal gan Gynghrair y GIG a'i gefnogi gan y Sefydliad Iechyd a phartneriaid ledled y DU ac Iwerddon.

Hosted by

In partnership

18 Smith Square, Llundain, SW1P 3HZ
q@thenhsalliance.org
q.thenhsalliance.org

Macmillan Public